No.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr E. Goodjohn, J.M. Norman, J. Protheroe a M. Evans (Aelod Lleyg);

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, W.A. Hennessy a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd)

625 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

626 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr P. Drake, M.J. Hooper a N. Wood.

627 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref, 2023 a’r Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2023 fel cofnod cywir.

628 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

629 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y TÎM DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2023.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, Mr G. Chapman, at y tabl ym mharagraff 2.3 a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol pe bai nifer yr atgyfeiriadau brys yn cael eu cynnwys mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gyllid Llywodraeth Cymru gan ofyn a oedd unrhyw arwydd bod cyllid yn parhau a beth oedd yr effaith debygol pe bai'r cyllid yn cael ei dynnu'n ôl. Mewn ymateb, dywedodd Rheolwr Gweithredol Diogelu a Chanlyniadau Gwasanaeth y byddai cyllid pellach ar gael yn 2024/25 ond byddai goblygiadau o ran adnoddau pe bai cyllid yn cael ei dynnu’n ôl ar ôl y flwyddyn nesaf. Roedd Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu'r fframwaith Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid er mwyn symleiddio'r broses ond byddai angen i'r Cyngor ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

O ran nifer yr asesiadau’n weddill i'w cwblhau o fewn yr amserlen ragnodedig, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor yn defnyddio'r Pecyn Cymorth Blaenoriaethu Cenedlaethol a olygai y byddai'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn cael eu hystyried yn gyntaf. Dywedodd y Cadeirydd fod 82 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn dal i fod angen eu hasesu a bod hynny'n risg iddyn nhw fel unigolion ond hefyd yn peri risg i'r Cyngor. Felly, roedd yn bwysig i'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i nodi'r brys i sicrhau bod y cyllid ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf ar y sail bod angen i'r Cyngor asesu rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Yn ogystal, roedd pryder hefyd bod Llywodraeth Cymru yn gohirio'r cyllid a'r fframwaith o ran Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid ac roedd angen i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) Y dylid cyfeirio sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hystyried.

Rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

630 CRYFHAU EIN CYMUNEDAU A’N GWAITH I DRECHU TLODI A’R ARGYFWNG COSTAU BYW PRESENNOL (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2023.

Cyfeiriodd y Cynghorydd E. Goodjohn at Atodiad A ac argymhelliad (6) a gofynnodd pa waith yr oedd y Cyngor yn ei wneud er mwyn cyfeirio unigolion at y sefydliad partner cyfrifol a allai gynorthwyo gyda'r argyfwng costau byw. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol, o ran cyfeirio, fod y Cyngor wedi adolygu cynnwys ei wefan yn ddiweddar fel ei bod yn adlewyrchu'r

wybodaeth ddiweddaraf. Yn ogystal, roedd mwy o wybodaeth ar wefan y Cyngor o ran cymorth ar gyfer anghenion tai pobl ac mewn perthynas â biliau ynni, ac ati. Roedd y Cyngor hefyd wedi lansio'r Gronfa Wrth Gefn Costau Byw yn ddiweddar ac roedd y cynllun hwnnw yn agored ar gyfer grantiau cymunedol bach yr oedd nifer sylweddol o geisiadau wedi'u derbyn amdanynt. Roedd gwaith pellach yn cynnwys datblygu dros 30 o fannau cynnes ac roedd y Cyngor yn parhau i weithio'n gryf gyda'i bartneriaid, yn enwedig y Ganolfan Cyngor ar Bopeth ac roedd y Cyngor hefyd yn rhoi cymorth drwy waith a oedd yn cael ei wneud gan ysgolion ac roedd cysylltiadau gwell rhwng gwasanaethau'r Cyngor o ran teuluoedd.

Gofynnodd y Cynghorydd Goodjohn a ystyriwyd Cyswllt Un Fro yn cyfeirio pobl yn uniongyrchol at y cysylltiadau hynny ac yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed ag anghenion tai i roi gwybod iddynt sut y gallent gael cymorth. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n dilyn yr ymchwiliad, ond roedd yn ymwybodol bod dull cydgysylltiedig o ran gofal cymdeithasol, tai ac anghenion eraill. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr fod system newydd a oedd yn galluogi’r Cyngor i wneud atgyfeiriadau uniongyrchol i'w sefydliadau partner a fyddai hefyd yn gallu gwneud atgyfeiriadau yn uniongyrchol i'r Cyngor.

Gofynnodd y Cynghorydd J. Protheroe a oedd unrhyw gynlluniau neu gynigion i gefnogi cynaliadwyedd mentrau cymdeithasol. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr mai gwaith Archwilio Cymru oedd ceisio deall rhai o'r rhwystrau a'r heriau yr oedd y sector hwnnw'n eu hwynebu a hefyd sut y gallai'r Cyngor weithio'n fwy effeithiol i gefnogi eu gweithgareddau. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at strategaeth gaffael y Cyngor ynghylch gwerth cymdeithasol a dywedodd fod hynny'n rhywbeth yr oedd y Cyngor yn awyddus i'w archwilio ymhellach.

Gofynnodd y Cadeirydd sut y byddai'r Cyngor yn cyrraedd y bobl hynny nad oedd ganddynt fynediad i wefan y Cyngor. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr nad oedd y Cyngor yn dibynnu ar ei wefan yn unig gan fod y Ganolfan Gyswllt ar gael a oedd hefyd yn ymdrin â nifer sylweddol o ymholiadau. Yn ogystal, darn cadarnhaol o waith oedd creu ysgolion bro fel Tregatwg a fyddai bellach yn gallu cefnogi rhai o wasanaethau'r Cyngor trwy gyfeirio rhieni. Roedd hefyd rôl ar gyfer llyfrgelloedd yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau partner y Cyngor er mwyn cyrraedd pobl mewn lleoliadau anodd eu cyrraedd. Yn ogystal, roedd hefyd yn bwysig iawn i'r Cyngor gefnogi cwsmeriaid a thrigolion i allu cael mynediad i wefan y Cyngor yn ddigidol drostynt eu hunain.

Wrth ddod yn ôl at bwyntiau'r Cyfarwyddwr, dywedodd y Cadeirydd fod angen mwy o ffocws yn y rhannau gwledig o'r Fro lle'r oedd rhagdybiaeth bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn teimlo bod unigolion sy'n byw yn y rhan wledig o’r Fro yn colli allan ac roedd yn teimlo bod angen ystyried yn fwy sut i ymgysylltu â phobl yn yr ardaloedd gwledig.

Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn cytuno â'r pwynt a wnaed gan y Cadeirydd a'i bod yn bwysig i'r Cyngor gydnabod bod gwahanol fathau o dlodi ac amddifadedd mewn gwahanol rannau o'r sir.

Roedd y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol wedi gofyn dau gwestiwn mewn perthynas â thrafodaethau â Llywodraeth Cymru ynghylch gosod targedau ar gyfer lliniaru tlodi.  Dywedodd y Cadeirydd fod Llywodraeth Cymru yn mynd i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant a gofynnodd pryd fyddai'r Strategaeth honno ar gael.  Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'n cael gwybod ac y byddai'n anfon ateb i'r holl Aelodau drwy e-bost.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y set o argymhellion ac ymatebion yn Atodiad A a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol pe gellid dod â'r holl argymhellion o'r adroddiad at ei gilydd rywbryd yn y dyfodol i amlinellu'n glir y gwaith yr oedd y Cyngor yn ei wneud a pha ganlyniadau a gyflawnwyd.  Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod yn awgrym ardderchog a byddai adroddiad diweddaru yn cael ei roi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pan fyddai ar gael.

Dywedodd y Cynghorydd Protheroe, o ran mynd i'r afael â thlodi a'r argyfwng costau byw, fod gan Aelodau Etholedig rôl i roi gwybod i drigolion am y math o gymorth sydd ar gael a sut y gellid cael gafael ar gymorth.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a chyfeirio'r adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cabinet eu hystyried.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

631 ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2023/24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2023.

Diben yr adroddiad oedd rhoi diweddariad canol blwyddyn ar weithrediadau Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y ffactorau a oedd yn gyrru economi'r DU yn ystod y cyfnod
dan sylw hyd at 30 Medi 2023 a dadansoddiad o ragolygon cyfradd log ar gyfer y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Medi 2026.

Ar ôl ystyried yr adroddiad canol blwyddyn, gwnaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

PENDERFYNWYD – Nodi'r Adroddiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys am y cyfnod 1 Ebrill, 2023 i 30 Medi, 2023.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

632 ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION CORFFORAETHOL 2022.23 (CAC) –

Diben yr adroddiad oedd galluogi ystyried cwynion corfforaethol a dderbyniwyd gan gwsmeriaid a Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus am y cyfnod cyfatebol.

Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu Polisi Cwynion a Phryderon Corfforaethol Enghreifftiol Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013. Roedd achwynwyr a oedd yn parhau'n anfodlon ar ôl Camau 1 a 2 y Polisi yn gallu cyfeirio eu cwyn at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC). Ym mis Mai 2021, cadarnhaodd OGCC fod polisi'r Cyngor yn cydymffurfio â'i bolisi enghreifftiol.

Trosglwyddodd y gwaith o gofnodi a rheoli cwynion a chanmoliaeth o Oracle CRM i blatfform GovService Granicus ym mis Awst 2022. Roedd y rhain yn eithrio cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd yn cael eu datrys drwy weithdrefn wahanol a'u cofnodi ar wahân.

Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu ac asesu gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol ac i wneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion yn effeithiol. Roedd y darpariaethau hyn yn Rhan 6 o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Pherfformiad a Llywodraethu Prif Gynghorau a Dyletswydd Prif Gynghorau i adolygu eu perfformiad. Diben y polisi oedd sicrhau bod achwynwyr yn cael ymateb cyson a theg. Roedd cofnodi a monitro cwynion yn galluogi'r Cyngor i:

- Gael mewnwelediad i foddhad dinasyddion o ran y gwasanaethau a ddarperir.
- Deall pa mor fodlon oedd cwsmeriaid gyda sut yr ymchwiliwyd i gwynion.
- Monitro ymatebolrwydd i ganllawiau statudol a disgwyliadau cwsmeriaid o ran pa mor gyflym y cwblhawyd ymchwiliadau i gwynion.
- Nodi potensial i wella gwasanaethau drwy ddadansoddi'r hyn a ddysgwyd o gwynion.

Dangosodd dadansoddiad o wybodaeth am gwynion ar gyfer 2022/23 gynnydd yn nifer y cwynion a dderbyniwyd i 495 (358) yn unol â'r duedd hirdymor o gwynion yn cynyddu, ac yn uwch na'r cyfartaledd blynyddol 9 mlynedd o 390.

- Roedd ymatebolrwydd, o ran glynu wrth derfynau amser, yn parhau i ostwng
- Roedd gwaith ymdrin â chwynion yn bodloni gofynion cyrff statudol
- Roedd angen mwy o ffocws ar ddysgu o gwynion.

Gwnaeth OGCC dderbyn 49 cwyn yn ymwneud â'r Cyngor yn ystod y cyfnod. Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o gymharu â'r 61 a dderbyniwyd yn 2021/22 ond roedd yn uwch na'r cyfartaledd tymor hwy o hyd. Fodd bynnag, ni symudwyd unrhyw gwynion ymlaen i ymchwiliad, datryswyd 15 cwyn drwy Benderfyniad

Cynnar ac ystyriwyd bod 15 (25) yn Gynamserol. Roedd 4 (8) allan o awdurdodaeth ac roedd 19 (19) yn achosion eraill a gafodd eu cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol. Atodwyd Llythyr Blynyddol llawn OGCC (2022/23) yn Atodiad B yr adroddiad.

Roedd yr Adroddiad Blynyddol yn manylu ar berfformiad cwynion ar gyfer Cyfarwyddiaethau yn 2022/23 ac yn cynnwys tueddiadau perfformiad ers 2014/15. Ym mis Ebrill 2022, gweithredodd y Cyngor y Polisïau Gweithredoedd Annerbyniol gan Ddinasyddion a Chyfryngau Cymdeithasol. Nid oedd y Polisi newydd ar Weithredoedd Annerbyniol gan Ddinasyddion wedi cael ei gymhwyso i unrhyw ddinesydd ers ei fabwysiadu. Ar ddyddiad yr adroddiad, roedd 12 cyfrif wedi'u blocio ar 'X' a 14 ar Facebook dan y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol.

Gofynnodd Mr. M. Evans (Aelod Lleyg) faint o ddibyniaeth y gellid ei rhoi ar wersi a ddysgwyd pan oedd nifer y cyfweliadau yn weddol isel ac a oedd dulliau eraill o ddysgu yn cael eu hystyried. Mewn ymateb, dywedodd Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol nad oedd llawer iawn o ddibyniaeth, ond roedd yr adborth a gafwyd yn ddefnyddiol o ran datblygu dull y Cyngor a deall profiadau pobl. O ran dulliau dysgu newydd, roedd un o'r dulliau newydd yn ymwneud ag e-bost cysylltiedig yn cael ei anfon yn syth ar ôl i gŵyn gael ei chau.

Dywedodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg) ei bod yn dda gweld nifer y cwynion lle'r oedd dysgu yn lleihau yn ystod y flwyddyn ac roedd am ddiolch i'r Cyfarwyddwr am y newidiadau i fformat yr adroddiad yn dilyn ystyriaeth y Pwyllgor y llynedd. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r diolch yn cael ei drosglwyddo i'r tîm.

Dywedodd y Cadeirydd, o ran cwynion, ei bod yn debygol y byddai elfen o dan-adrodd yn enwedig mewn perthynas â chwynion a godwyd yn uniongyrchol i Gynghorwyr ac roedd yn bwysig i'r rheiny gael eu dal. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod un maes a fyddai'n cael ei archwilio ar gyfer yr adroddiad nesaf mewn perthynas â'r sylwadau neu'r cwynion hynny a godwyd ond nad oeddent yn rhan o'r polisi ffurfiol.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad ac Atodiad A (Adroddiad Blynyddol ar Gwynion a Chanmoliaeth).

(2) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i dderbyn diweddariad blynyddol mewn perthynas â Chwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol.

(3) Y dylid cyfeirio'r adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Cabinet i'w hystyried.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(3) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am yr adroddiad a'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymateb i Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

633 CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2023-24 (PGAMR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio a gynhwyswyd ac a gymeradwywyd yng Nghynllun ar Sail Risg Archwilio Mewnol 2023-24.

Roedd manylion y cynnydd a wnaed yn erbyn cynllun ar sail risg archwilio mewnol 2023-24 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 24 Tachwedd 2023 yn Atodiad A yr adroddiad. Dangosodd y cynnydd fod 30 o 69 adolygiad archwilio a gynlluniwyd wedi'u cwblhau hyd yn hyn, sy'n cyfateb i gyfradd cwblhau o 43%. Roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol wedi gosod targed cwblhau o 50% erbyn diwedd chwarter 3.

Yn seiliedig ar yr asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy brofi effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol, roedd barn archwilio wedi'i chynnig ar 26 o'r 30 archwiliad a gwblhawyd. Roedd 19 archwiliad wedi derbyn sicrwydd Sylweddol neu Resymol ac roedd 7 archwiliad wedi derbyn sicrwydd Cyfyngedig. Roedd manylion y risgiau a nodwyd yn yr adroddiadau sicrwydd Cyfyngedig yn yr adroddiad. Yn rhan o'r cynllun eleni, roedd 21 archwiliad nad oeddent wedi'u cynnal neu'u cwblhau yn 2022-23. Roedd Atodiad B yr adroddiad yn dangos statws yr archwiliadau hynny. Erbyn hyn, roedd 9 o'r 21 archwiliad wedi'u cwblhau, roedd 6 ar y gweill neu wedi'u dyrannu ac ar fin dechrau ac roedd 1 wedi'i ddileu o'r cynllun gan fod y gwasanaeth wedi newid ac nad oedd y risgiau a nodwyd yn flaenorol yn bodoli mwyach. Hyd yn hyn roedd 95 argymhelliad wedi'u gwneud i wella'r amgylchedd rheoli. Roedd y cynnydd a oedd yn cael ei wneud wrth weithredu'r rheiny yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan yr Archwilwyr a'i adrodd i'r Pwyllgor.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at baragraff 2.6 a materion mewn perthynas â'r adroddiadau sicrwydd cyfyngedig hynny gan gynnwys llyfrgelloedd ac offer digidol a Chod Ymddygiad. Dywedodd fod pryder ynglŷn â'r amserlenni i'r argymhellion gael eu gweithredu. Mewn ymateb, dywedodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol y byddai adolygiad dilynol yn cael ei gynnal o'r holl adroddiadau sicrwydd cyfyngedig. Byddai canlyniad yr adolygiadau yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor pan fyddai ar gael ac fel arfer o fewn 6 mis.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Blynyddol Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2023-24.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

634 MONITRO ARGYMHELLION (PGMAR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar argymhellion archwilio mewnol wedi'u gwneud, wedi'u gweithredu a heb eu cwblhau.

Roedd manylion datganiad sefyllfa o ran argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig archwilio mewnol wedi'u gwneud, wedi'u gweithredu a heb eu cwblhau ar 24 Tachwedd 2023 i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad. Roedd cyfanswm o 58 argymhelliad blaenoriaeth uchel a chanolig wedi'u gwneud yn dilyn casgliad archwiliadau o gynllun blynyddol 2023-24. Cytunwyd ar y rhain i gyd a hyd yma roedd 20 wedi'u gweithredu ac roedd gan 38 ddyddiad gweithredu yn y dyfodol.

O ran archwiliadau a gwblhawyd cyn y flwyddyn ariannol gyfredol, roedd 7 argymhelliad heb eu cwblhau ar hyn o bryd, dyna lle roedd y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno wedi mynd heibio. Dangoswyd manylion y rhain yn Atodiad B yr adroddiad. Roedd gan 2 argymhelliad blaenoriaeth ganolig, a wnaed mewn archwiliadau a gynhaliwyd yn 2021-22, ddyddiadau targed yn y dyfodol ar gyfer gweithredu. Roedd manylion y rhain yn Atodiad C yr adroddiad. Yn ogystal, roedd gan 21 argymhelliad a wnaed yn 2022-23 ddyddiad targed yn y dyfodol ac roedd y rhain yn parhau i gael eu monitro. Roedd archwilwyr yn monitro'r argymhellion yn rheolaidd a byddai unrhyw oedi neu faterion diangen yn cael eu hamlygu i Uwch Reolwyr ac yn y pen draw, y Pwyllgor.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i'r Pwyllgor gael gwybod am unrhyw feysydd llithriad ac i'r materion hynny gael eu hadrodd i'r Uwch Dîm Arwain mewn modd amserol hefyd.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – Nodi'r wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion uchel a chanolig.

Rheswm dros y penderfyniad

Gyda golwg ar gynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

635 ADRODDIAD BLYNYDDOL TERFYNOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022/23 (PGMAR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi cyfle i'r Aelodau wneud sylwadau ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022/23 cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo Adroddiad Blynyddol Terfynol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022/23. Cyflwynwyd yr adroddiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 18 Medi 2023 ac roedd sylwadau'r Aelodau yn 1.2 yr adroddiad eglurhaol ac yn 3.2 y prif adroddiad.

Dangosodd yr adroddiad sut yr oedd y Pwyllgor wedi cyflawni ei gylch gorchwyl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor fel y nodir gan Fesur Llywodraeth Leol 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd wedi cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd yn ystod y flwyddyn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23 gael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau nac ymholiadau, gwnaeth y Pwyllgor

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol terfynol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23.

(2) Bod Adroddiad Blynyddol terfynol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23 yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac i'w cymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

636 POLISI GORFODI TWYLL CORFFORAETHOL (PGMAR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi i'r Aelodau Bolisi Gorfodi Twyll Corfforaethol drafft y Cyngor ("y Polisi") i'w ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

Un o swyddogaethau craidd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio effeithiol oedd ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor, yr amgylchedd rheoli a threfniadau gwrth-dwyll a llygredd cysylltiedig. Roedd y Strategaeth a'r Fframwaith Gwrth-dwyll yn sail i ymrwymiad y Cyngor i atal pob math o dwyll, llwgrwobrwyo a llygredd, p'un a yw'n cael ei geisio'n allanol neu o'r tu mewn. Roedd polisïau allweddol ar waith i gefnogi ymrwymiad y Cyngor, a nododd y Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd y byddai'r Cyngor yn ceisio'r cosbau priodol yn erbyn unrhyw unigolyn neu sefydliad a wnaeth ei dwyllo neu a geisiodd ei dwyllo.

Nod y Polisi drafft oedd sicrhau y gallai'r Cyngor gymhwyso ystod lawn o gosbau mewn modd cyfiawn a chyson, gan sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol, yn gymesur ac yn gost-effeithlon. Byddai'r Polisi hwn yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau am gosbau'n llym, yn gadarn, yn dryloyw ac yn

cael ei hystyried yn briodol er budd y cyhoedd. Byddai Panel Cosbau'r Cyngor yn gwneud y penderfyniad i atgyfeirio achosion ar gyfer erlyn neu argymell math arall o gosb fel dewis arall i erlyn, lle caniateir hynny gan ddeddfwriaeth benodol.

Byddai'r defnydd o gosbau'n cael ei lywodraethu gan egwyddorion y Polisi hwn a byddai'n benodol i Aelodau Etholedig a Staff y Cyngor, Twyll Lles fel Gostyngiad y Dreth Gyngor, Twyll Tai Cymdeithasol ac unrhyw dwyll arall yr ymchwiliwyd iddo gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. Dylid nodi bod gan y Gwasanaeth Rheoleiddio a Rennir (GRhR) ei Bolisi Cydymffurfio a Gorfodi ei hun i gwmpasu meysydd gwaith y GRhR.

Dywedodd Mr N. Ireland (Aelod Lleyg), fod llwyddiant neu fethiant y Polisi yn ymwneud ag ansawdd yr ymchwiliad a wnaed. Felly, dylai'r Polisi sôn am y math o hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y rhai sy'n cynnal yr ymchwiliadau a sylwebaeth hefyd ynghylch y wybodaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen. Cytunodd y Pwyllgor i ychwanegu datganiad ychwanegol yn Adran 4 yn amlinellu y dylai ymchwiliad gael ei gynnal neu ei arwain gan berson sydd â'r cymwysterau priodol.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Polisi newydd yn cyd-fynd â'r Polisi a luniwyd ar gyfer y GRhR. Mewn ymateb, cadarnhaodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol fod y Polisi newydd wedi'i drafod a'i rannu gyda'r GRhR a hefyd bod y Gwasanaethau Cyfreithiol wedi adolygu'r Polisi pan oedd ar ffurf drafft.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) Diwygio Adran 4 o'r Polisi Gorfodi Twyll Corfforaethol drafft sy'n ymwneud ag ymchwiliadau i gynnwys sylwebaeth y dylai ymchwiliadau gael eu cynnal neu eu harwain gan swyddogion sydd â'r hyfforddiant a/neu'r profiad priodol.

(2) Bod y Polisi Gorfodi Twyll Corfforaethol drafft ynghyd ag argymhelliad y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w cymeradwyo.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Storied cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cabinet yn derbyn sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

637 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (PGMAR) –

Cyflwynwyd yr adroddiad a diben yr adroddiad oedd rhoi Blaenraglen Waith 2023/24 i'r Aelodau.

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynwyd Blaenraglen Waith ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y Blaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24 yn Atodiad A yr adroddiad ac roedd newidiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Nododd y Pwyllgor y byddai Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Chwefror er mwyn cyflwyno cynnydd mewn perthynas â seiberddiogelwch a diogelu corfforaethol.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD –

(1) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

(2) Cymeradwyo'r rhestr o eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 5 Chwefror, 2024 a'r rhestr o bobl i'w gwahodd ar gyfer pob eitem (os yn briodol).

<u>Rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1&2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.